Wythnos Gofalwyr

9–15 Mehefin 2025

# Rhedeg gweithgaredd ar gyfer yr Wythnos Gofalwyr



## Ein rhestr wirio a'n deg awgrym pwysig


Wrth gynllunio eich gweithgaredd ar gyfer yr Wythnos Gofalwyr, mae'n syniad da ystyried y canlynol:

- [ ] Penderfynwch ar bwrpas eich gweithgaredd, e.e. rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gyda gofalwyr, annog gofalwyr i gysylltu a sgwrsio, i roi cyfle i ofalwyr roi cynnig ar weithgareddau creadigol ac ati.
- [ ] Ystyriwch a fydd angen unrhyw gyllid arnoch ar gyfer eich gweithgaredd.
- [ ] Lledaenwch y gair am eich gweithgaredd, er enghraifft ar y cyfryngau cymdeithasol neu yn eich cylchlythyr drwy e-bost. Mae gennym graffeg cyfryngau cymdeithasol a thempled datganiad newyddion ar gael i'w llwytho i lawr.
- [ ] Ceisiwch estyn allan at sefydliadau eraill yn eich cymuned a allai gefnogi eich gweithgaredd. Er enghraifft, efallai y bydd gan fusnesau lleol ddiddordeb mewn rhoi bagiau o bethau da i ofalwyr, neu efallai y byddwch eisiau ymuno ag elusen neu grŵp cymunedol lleol i gael yr effaith fwyaf
- [ ] Os yw eich gweithgaredd yn mynd i fod ar-lein, mae'n bwysig ystyried y rheiny sydd ddim yn gallu cael mynediad at weithgareddau ar-lein, neu sy'n well ganddynt beidio â chael mynediad atynt. A fedrwch chi gyrraedd gofalwyr lleol mewn ffyrdd eraill hefyd, er enghraifft dros y ffôn?
- [ ] Os yw eich gweithgaredd yn mynd i fod mewn person, yn ddelfrydol, archebwch eich lleoliad yn gynnar, dewiswch leoliad gyda chysylltiadau trafnidiaeth da a lleoliad hygyrch.
- [ ] O fis Mai ymlaen, gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi ychwanegu eich gweithgaredd at wefan yr Wythnos Gofalwyr, a rhowch wybod i ni beth ydych chi'n mynd i'w wneud!

# Deg awgrym pwysig ar gyfer eich gweithgaredd Wythnos Gofalwyr

## 1.

Cynnwys gwybodaeth a chyngor i ofalwyr yn eich cylchlythyr drwy e-bost.



## 2.

Rhedeg sesiwn galw heibio i roi cyngor neu wybodaeth. Mae llawer o arbenigwyr sydd yn gallu helpu i gysylltu gofalwyr gyda chymorth, neu sy'n gallu cynnig awgrymiadau ar lesiant.





## 3.

Trefnu cwis neu fore coffi. Mae hyn yn ffordd wych i ofalwyr gysylltu â gofalwyr eraill a chymryd seibiant.

## 4.

Cynnal stondin Wythnos Gofalwyr mewn meddygfeydd lleol, archfarchnadoedd, ysgolion neu ysbytai.

## 5.

Rhedeg cystadleuaeth lle mae gofalwyr yn cyflwyno straeon byrion, cerddi neu luniau am eu profiadau o ofalu. Gallech redeg seremoni i ddathlu'r ceisiadau.

## 6.

Gweithio mewn partner gyda busnes lleol noddi eich digwyddiad neu i anfon becynnau gofal at ofalwyr.

## 7.

Rhedeg sesiwn gweithgarwch corfforol ar-lein sy'n addysgu cyfranogwyr am ymwybyddiaeth ofalgar.




## 8.


Cynnal digwyddiad gyda'r adran Adnoddau Dynol yn eich gweithle, i roi gwybod i staff am eich polisïau sy'n ystyriol o ofalwyr a'r cymorth.sydd ar gael yn y gwaith, neu ei ddefnyddio i lansio polisi newydd.

## 9.

Gwahodd siaradwr gwadd, fel arbenigwr iechyd meddwl, gwleidydd lleol neu ofalwr sydd eisiau rhannu eu stori.

## 10.

Gofyn i'ch cymuned ysgrifennu cardiau neu lythyrau at ofalwyr lleol, yn enwedig y rheiny sydd â llai o fynediad i'r rhyngrwyd.



**carersweek.org**

Mae Carers UK yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (246329) ac yn yr Alban(SC039307), ac mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant, rhif 864097. Swyddfa gofrestredig: 20 Great Dover Street, Llundain SE1 4LX. **2025**